



Papur Trafod ar gyfer Cyfarfodydd Aml-leoliad

Ebrill 2023

Cyflwyniad

Mae Arweiniad Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gyngorau yng Nghymru yn dweud y bydd polisi ar gyfarfodydd aml-leoliad sydd ar wahân ac sydd ynghyd â threfniant gorfodol y “trefniadau cyfarfod” cyfreithiol, yn ei gwneud yn glir i'r rheini sydd yn gysylltiedig ble mae prosesau yn cael eu sefydlu oherwydd gofynion cyfreithiol, a ble mae penderfyniadau lleol wedi cael eu gwneud am weithrediad cyfarfodydd aml-leoliad.

Dylai'r polisi nodi gweithdrefnau manylach i sicrhau bod cyfarfodydd aml-leoliad yn gweithio'n effeithiol ac yn adlewyrchu'r ystyriaeth o amgylchiadau lleol wrth benderfynu pa ddulliau o weithredu a ddefnyddir yn y pen draw. Dylai'r broses gael ei harwain gan y rheini sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd ac sy'n cefnogi gweithrediadau'r cyfarfodydd hynny – wedi'u llywio bob amser gan anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd. Mae'r arweiniad yn dweud: *'I awdurdodau lleol, disgwylir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd arwain y broses hon.'*

Mathau o Gyfarfodydd

Mae Arweiniad Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gyngorau yng Nghymru yn disgrifio “cyfarfod aml-leoliad” fel *'cyfarfod o awdurdod perthnasol lle nad yw'r cyfranogwyr i gyd yn yr un lle ffisegol'*, gan ddweud *'gall o leiaf un cyfranogwr fod yn ymuno â'r cyfarfod trwy ddull o bell'. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd o'r math a ddisgrifir isod:*

- *Cyfarfodydd pwyllgor lle mae'r cyfranogwyr i gyd yn yr un lleoliad ffisegol ac eithrio un unigolyn sydd yn ymuno o leoliad arall, gydag oriel gyhoeddus ffisegol yn cael ei darparu;*
- *Cyfarfodydd pwyllgor lle mae tua'r un nifer o aelodau yn bresennol mewn gofod ffisegol ag sy'n ymuno trwy ddull o bell; gallai'r rheini sydd yn ymuno trwy ddull o bell gynnwys y cadeirydd;*
- *Cyfarfodydd pwyllgor lle mae'r holl aelodau yn ymuno trwy ddull o bell ond lle mae oriel gyhoeddus ffisegol ar gael yn adeiladau'r awdurdod beth bynnag;*
- *Cyfarfodydd pwyllgor sydd yn digwydd yn gyfan gwbl trwy ddull o bell lle nad oes unrhyw drefniadau ffisegol wedi cael eu gwneud.*

Categoriâu Cyfarfodydd Cyngor Sir Ceredigion

Mae adran 15.15 yr arweiniad yn dweud nad yw'r arweiniad hwn nac Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 *'yn gwahaniaethu o gwbl rhwng cyfarfodydd lle mae rhai cyfranogwyr yn ymuno trwy ddull o bell a'r rheini lle mae'r holl gyfranogwyr yn gwneud hynny, ond bydd angen i drefniadau cyfarfodydd roi cyfrif am wahaniaethau ymarferol cyfarfodydd o wahanol fathau, a chynllunio yn unol â hynny'*.

At ddiben y polisi hwn, ac i wahaniaethu rhwng y ddau fath o gyfarfod a nodir uchod, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyfeirio at gyfarfod lle mae rhai cyfranogwyr yn ymuno drwy ddulliau o bell fel **'cyfarfodydd hybrid'**, a'r rheini lle mae'r holl gyfranogwyr yn gwneud hynny fel **'cyfarfodydd o bell'**.

Y ffordd orau o fodloni gofynion y 3 enghraifft gyntaf uchod yw trwy **gyfarfod hybrid**. Mae hyn yn golygu bod yr holl gyfranogwyr ac arsylwyr yn gallu mynychu'r cyfarfod mewn ystafell bwyllgor, sef Siambr y Cyngor ym Mhenmorfa, Aberaeron neu drwy lwyfan cyfarfod ar-lein. Y ffordd orau o fodloni gofynion y 4^{edd} enghraifft yw trwy **gyfarfod o bell**. Mae hyn yn golygu mai dim ond trwy lwyfan cyfarfod ar-lein y bydd y cyfarfod ar gael.

Manteision cyfarfodydd aml-leoliad

Mae'r arweiniad yn amlinellu'r manteision canlynol sy'n deillio o gyfarfodydd aml-leoliad:

- Gwella a chefnogi democratiaeth leol, gan leihau rhwystrau a allai fod wedi bodoli'n flaenorol
- Gweithio'n fwy cynhyrchiol. Pan fydd cyfranogwyr yn dod ynghyd trwy ddull o bell, maent yn aml wedi gallu cyflawni mwy.
- Ei gwneud yn haws i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd, gyda phresenoldeb y cyhoedd drwy gyfarfodydd aml-leoliad yn ôl pob sôn yn uwch nag o'r blaen trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac enghreifftiau lle mae'r cyhoedd wedi canfod bod cyfarfodydd aml-leoliad yn llai bygythiol, a bod ganddynt y potensial i annog mwy o bobl i ymgeisio am swyddi cyhoeddus.

Mae'r canllawiau hefyd yn dweud i rai, *'bydd cyfarfodydd aml-leoliad yn cyflwyno heriau hefyd – er enghraifft, y rheini â chysylltiad band eang gwael neu bobl anabl sydd yn methu cael mynediad at gyfarfodydd dros y rhyngwrdd am resymau eraill'*.

Ystyriaethau ar gyfer penderfynu ar y math o gyfarfod

Wrth benderfynu pa gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal orau drwy ddull hybrid, a pha rai sy'n cael eu cynnal orau drwy ddull o bell, dylid ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol feddwl am, a gweithredu ar, anghenion hirdymor yn y ffordd y caiff polisi ei ddatblygu a'i lunio
- Yr ôl troed carbon llai
- Lleihau'r risg o ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol, megis tywydd eithafol, neu offer yn methu
- Gwneud y defnydd o'r Gymraeg yn llawer haws
- Lleihau'r angen am deithio a chostau cysylltiedig a phwysau amser, yn enwedig pan fo awdurdodau perthnasol yn rhychwantu ardaloedd daearyddol mawr
- Ei gwneud yn haws i gyfranogwyr gymryd rhan os oes ganddynt gyfrifoldebau proffesiynol a gofalu, gan ddileu, o bosibl, rai rhwystrau rhag ymgeisio am swyddi
- Cefnogaeth well i aelodau o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys cefnogaeth sy'n cydnabod y model cymdeithasol o anabledd. Yn yr un modd ag y mae rhwystrau'n cael eu dileu o ran cyfranogiad y cyhoedd, mae cyfarfodydd aml-leoliad wedi ei gwneud yn haws i'r rhai sy'n darparu gofal, neu bobl anabl, neu bobl â nodweddion gwarchodedig eraill, ymgysylltu ar sylfaen gyfartal. Mewn rhai achosion, mae cyfranogwyr wedi gweld bod ffurfioldeb cyfarfodydd wyneb

yn wyneb yn annymunol, ac mae cyfarfodydd aml-leoliad wedi cael gwared ar y ffactor hwn

- Gwell ymddygiad, gan ei gwneud hi'n haws i'r Cadeirydd ddeall pwy sydd am wneud cyfraniad, er ei bod yn anoddach darllen iaith y corff

Yn ogystal â hyn, mae cefnogi cyfarfodydd hybrid yn ddwys iawn o ran adnoddau, ac mae angen 2 Swyddog o'r Gwasanaethau Democrataidd i fynychu pob cyfarfod.

Isod mae tabl sy'n rhoi data ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd rhwng Mai 2022 a diwedd Mawrth 2023, sy'n dangos canran yr aelodau a fynychodd bob cyfarfod wyneb yn wyneb, o bell a faint a nododd eu hymddiheuriadau:

	Nifer y cyfarfodydd	Nifer yr aelodau	Yn bersonol	O bell	Ymddiheuriadau
Cyngor	10	38	72.03%	17.68%	10.29%
Cabinet	11	8	81.82%	15.91%	2.27%
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	3	6	38.89%	38.89%	22.22%
Pwyllgor Rheoli Datblygu	9	15	54.81%	30.37%	14.81%
Pwyllgorau Trwyddedu	4	11	40.48%	45.24%	14.29%
Pwyllgor Moeseg a Safonau	3	9	59.26%	25.93%	14.81%
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	5	9	11.11%	73.33%	15.56%
Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu	8	10	58.75%	28.74%	13.74%
Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau	2	10	50%	25%	25%
Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol	5	13	44.44%	39.68%	14.29%
Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach	4	13	51.92%	40.38%	7.69%
Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu	4	13	48.08%	30.77%	21.15%
Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus	5	13	41.54%	47.69%	10.77%

Pwyllgor Iaith	2	6	50%	33.33%	16.67%
----------------	---	---	-----	--------	--------

Argymhellion ar gyfer cyfarfodydd hybrid

Y Cabinet sydd wedi gweld y ganran uchaf o bresenoldeb wyneb yn wyneb. Mae gan y pwyllgor hwn, ynghyd â'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yr awdurdod i wneud penderfyniadau, ac felly efallai y bydd aelodau'r cyhoedd yn dymuno bod yn bresennol yn bersonol i glywed y trafodaethau, er na allant gymryd rhan yn nhrefodion y Cyngor na chyfarfodydd y Cabinet. Mae cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor hefyd yn cael eu ffrydio'n fyw, a gellir eu gweld yn ddiweddarach, ond gan gymryd popeth i ystyriaeth argymhellir bod y cyfarfodydd hyn yn parhau i gael eu gweithredu fel cyfarfodydd hybrid.

Gall aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yn y cyfarfodydd canlynol:

- Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
- Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
- Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach
- Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
- Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Gan gymryd i ystyriaeth anghenion y gymuned leol, argymhellir bod y cyfarfodydd hyn yn parhau i gael eu gweithredu fel cyfarfodydd hybrid er mwyn caniatáu opsiwn i fynychu yn bersonol neu o bell.

Mae'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau wedi'i gyfansoddi o'r un aelodaeth â'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu, gan ei bod yn arferol i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal yn syth ar ôl cyfarfod y pwyllgor cydlynu, felly am resymau ymarferol, byddai'n rhesymol gweithredu'r un trefniadau ar gyfer y pwyllgor hwn.

Dylid nodi fodd bynnag y gall fod yn angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal o bell yn unig, megis tywydd eithafol pan fydd teithio i fynychu cyfarfodydd yn bersonol yn peri risg i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod, ac i swyddogion a chyfieithwyr sy'n cefnogi'r system hybrid. Lle ystyrir bod hyn yn angenrheidiol, gwneir pob ymdrech i hysbysu'r holl gyfranogwyr, ac unrhyw aelodau o'r cyhoedd sydd wedi hysbysu Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd o'u bwriad i fod yn bresennol yn bersonol.

Argymhellion ar gyfer Cyfarfodydd o Bell

Gan gymryd i ystyriaeth natur cynnal cyfarfodydd hybrid sy'n ddwys o ran adnoddau yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr ôl troed carbon is, y risg is o ddigwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol megis tywydd eithafol neu offer yn methu, y costau teithio is a'r effaith ar y gyllideb a phwysau amser, a mwy o hygyrchedd i unigolion a allai fod â chyfrifoldebau proffesiynol a gofalu, cynigir bod y Cyngor yn cynnal ymarfer pilot mewn perthynas ag un Pwyllgor am gyfnod o 18 mis lle cynhelir y pwyllgor hwn o bell yn unig.

Cynigir bod yr ymarfer hwn yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y rhesymau a ganlyn:

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- Byddai hyn yn darparu mewnwelediad uniongyrchol o'r ymarfer peilot i'r pwyllgor hwn;
- Mae nifer yr aelodau sy'n mynychu mewn person i'w gymharu gyda o bell oddeutu 50:50;
- Ni all aelodau'r cyhoedd gyfrannu i'r pwyllgor hwn.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Mae mwyafrif yr Aelodau yn mynychu o bell ar hyn o bryd (bron i dri chwarter);
- Ni all aelodau'r cyhoedd gyfrannu at y pwyllgor hwn;
- Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys Aelodau Lleyg ac nid oes gofyniad i Aelodau Lleyg fyw o fewn pellter teithio rhesymol i Siambr y Cyngor;
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn Aelod Lleyg, a chafodd pob Pwyllgor a gynhaliwyd rhwng mis Mai 2021 a mis Mawrth 2022 ei gadeirio o bell;
- Mynychir cyfarfodydd o bell gan Archwilio Cymru.

Yn ddibynnol ar gydsyniad y cyngor, fe fydd Cadeirydd pob Cyfarfod yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad ac yn dilyn cyfnod y peilot, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ystyried a yw'n dymuno ymestyn y ddarpariaeth o gyfarfodydd o bell i bwyllgorau eraill, neu ddychwelyd i gefnogi pob Pwyllgor mewn modd hybrid.

Bydd pob gweithdy a gweithgaredd hyfforddi arall yn cael eu cefnogi fel cyfarfodydd o bell, oni bai bod cyfiawnhad penodol dros fynychu yn bersonol neu drwy ddulliau hybrid.